



**Cyngor Gofal Cymru**  
Care Council for Wales

*Hyder mewn Gofal - Confidence in Care*



## PROFFIL O'R RHEOLWYR CARTREFI GOFAL I OEDOLION YNG NGHYMURU

Adroddiad o Gofrestr Gweithwyr Gofal  
Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru, Mehefin 2014

[www.cgymru.org.uk](http://www.cgymru.org.uk)



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

Cyngor Gofal Cymru,  
South Gate House,  
Wood Street,  
Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 30 33 444

Ffacs: (029) 2038 4764

E-bost: [gwybodaeth@cgymru.org.uk](mailto:gwybodaeth@cgymru.org.uk)

Gwefan: [www.cgymru.org.uk](http://www.cgymru.org.uk)



@CyngorGofal



Gyrfaoedd Gofal Cymru

© (2014) Cyngor Gofal Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

ISBN 978-1-909867-51-2

### **Copïau pellach a fformatau eraill**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn print bras neu mewn fformatau eraill yn ôl y gofyn.

Dyluniwyd gan Creative Loop [www.creative-loop.co.uk](http://www.creative-loop.co.uk)

## Cynnwys

Tudalen

<b>1</b>	Cyflwyniad	<b>4</b>
<b>2</b>	Dadansoddiad data o'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Mehefin 2014	<b>4</b>
<b>3</b>	Oedran a rhyw	<b>5</b>
<b>4</b>	Cymwysterau	<b>6</b>
<b>5</b>	Sir cyflogaeth	<b>8</b>
<b>6</b>	Math o gyflogaeth	<b>9</b>
<b>7</b>	Hyd amser mewn swydd	<b>13</b>
<b>8</b>	Rheolwyr yn ymuno â'r Gofrestr a'i gadael fel rheolwyr cartrefi gofal i oedolion	<b>14</b>
<b>9</b>	Amrywiaeth	<b>17</b>
<b>10</b>	Crynodeb	<b>18</b>

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae wedi bod yn ofynnol i reolwyr cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) er 1 Hydref 2011. Cyflwynwyd cofrestru gorfodol gan Lywodraeth Cymru drwy Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011<sup>1</sup>.
- 1.2 Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol ar reolwyr cartrefi gofal i oedolion sy'n gweithio yng Nghymru. Nid yw'n ofynnol i weithwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru felly mae'r adroddiad hwn yn proffilio'r rheolwyr yn unig.


## 2 Dadansoddiad data o'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Mehefin 2014

- 2.1 Mae'r proffil hwn wedi'i seilio ar y data am reolwyr cartrefi gofal i oedolion ac am eu cyflogaeth, a roddwyd ganddynt yn ystod y broses o wneud cais i gofrestru â Chofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru (y Gofrestr) ac i barhau i fod yn gofrestredig â'r Cyngor Gofal.
- 2.2 Mae'r data am y 1,255 o reolwyr cartrefi gofal i oedolion sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Gofal ac sy'n gweithio yng Nghymru ar 1 Mehefin 2014. Roedd 54 yn fwy o bobl ar y Gofrestr fel rheolwyr cartrefi gofal i oedolion nag ym mis Mehefin 2013. Ar 1 Mehefin 2014 roedd hefyd 24 o reolwyr a oedd yn gwneud cais i fynd ar y Gofrestr sydd heb eu cynnwys yn y proffil hwn. Mae'r ffigyrau canlynol yn adlewyrchu rhywfaint o newid yn y sector dros y flwyddyn ddiwethaf a hefyd sefydliad parhaus y Gofrestr wrth i nifer fach o reolwyr a oedd eisoes yn ymarfer a wnaeth gais hwyr.
- 2.3 Roedd mwyafrif y rheolwyr ar y Gofrestr (83.2 y cant) yn gweithio mewn gwasanaeth a oedd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Roedd cyflogaeth bresennol 29 o reolwyr yn anhysbys ar ddyddiad y proffil.
- 2.4 Ar 1 Mehefin 2014, roedd 1,131 o wasanaethau wedi'u cofrestru gydag AGGCC fel cartrefi gofal i oedolion. Roedd gan fwyafrif y gwasanaethau (979) o leiaf un rheolwr cymwysedig wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Gofal. Mewn nifer o wasanaethau, roedd swydd y rheolwr yn wag ar y dyddiad hwn gan gynnwys 40 o'r gwasanaethau hyn lle nad oedd unrhyw un wedi'i gofrestru fel rheolwr gydag AGGCC neu gyda'r Cyngor Gofal.
- 2.5 Roedd rôl y rheolwr mewn 107 o wasanaethau cofrestredig ychwanegol wedi'i rhestru fel swydd wag ond roedd pobl a oedd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gofal ac a oedd yn gymwysedig fel rheolwr cartrefi gofal i oedolion ym mhob un o'r gwasanaethau hynny.
- 2.6 Yn 51 o wasanaethau roedd AGGCC yn rhestru rheolwr penodol fel y rheolwr cofrestredig ond nid oedd gan y Cyngor Gofal yr unigolyn hwnnw wedi'i gofrestru yn gweithio yn y gwasanaeth hwnnw. Roedd nifer fach o'r gwasanaethau hyn ddim yn weithredol ar y pryd ac roedd o leiaf un wedi cau.
- 2.7 Mae'r data o'r Gofrestr yn cynnwys gwybodaeth am y rheolwyr yn ymuno â'r Gofrestr a'i gadael fel rheolwyr cartrefi preswyl i oedolion yn y flwyddyn er 1 Mehefin 2013.

<sup>1</sup> Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2011, [www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1016/contents/made/welsh](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1016/contents/made/welsh)

### 3 Oedran a rhyw

Ffigwr 1: Oedran a rhyw rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014




- 3.1** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynyddodd y nifer ar y Gofrestr i 1,255 wrth i Gofrestr rheolwyr cartrefi gofal i oedolion gael ei sefydlu. Mae Adran 8 yn dadansoddi'r data am y rhai a adawodd ac a ymunodd â'r Gofrestr ers Proffil 2013. Ym mis Mehefin 2014, roedd 81.3 y cant (82.3 y cant yn 2013) yn fenywod a 18.7 y cant (17.7 y cant yn 2013) yn ddynion. Felly tra bod y gymhareb o ddynion i fenywod yn bron i bedwar i un, roedd cyfran y dynion wedi cynyddu ychydig o un y cant.
- 3.2** Roedd nifer y rheolwyr wedi cynyddu fwyaf yn y grŵp 56 – 60 oed (cynnydd o 18). Roedd y grŵp oedran 46 – 50 yn parhau i fod y mwyaf (245). Roedd y niferoedd wedi cynyddu ym mhob grŵp oedran heblaw am ddau, a bu'r gostyngiad mwyaf yn y grŵp oedran 51 – 55 (10 yn llai).
- 3.3** Roedd mwyafrif y rheolwyr, 81.8 y cant, dros 40 oed (81.3 y cant yn 2013) ac roedd 46.9 y cant dros 50 oed. Roedd y ganran dros 60 oed wedi cynyddu am y drydedd flwyddyn yn olynol (o 11.2 y cant yn 2013) i 12.3 y cant. Oedran cyfartalog yr holl reolwyr oedd 49 oed.
- 3.4** Roedd nifer y rheolwyr hunangyflogedig wedi cynyddu o 158 i 185. Roedd eu proffil oedran yn dangos bod y mwyafrif dros 50 oed a bu cynnydd yn nifer y rhai dros 55 oed yn ystod y flwyddyn o 74 i 90.

## 4 Cymwysterau

**4.1** Mae'n ofynnol i reolwyr cartrefi gofal i oedolion feddu ar y cymhwyster priodol er mwyn gwneud cais i gofrestru. Felly, mae'r rheolwyr ar y Gofrestr yn gymwysedig o leiaf i'r safon ofynnol a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Ffigwr 2: Cymwysterau gan reolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014



**4.2** Y cymhwyster gofynnol ar hyn o bryd yw Diploma Lefel 5 y FfCCh mewn Arwain Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Cartrefi Preswyl i Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon, a gyflwynwyd yng Nghymru gyda'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ym mis Ionawr 2011. Ym mis Mehefin 2014, roedd wedi'i gyflawni gan 131 o reolwyr cartrefi gofal i oedolion, sef cynnydd o 70 o gymharu â phroffil 2013.


**4.3** Roedd y Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig, sef y cymhwyster gofynnol hyd at gyflwyniad y CGC 4 mewn Arwain a Rheoli yn y Gwasanaethau Gofal yn 2008, yn parhau i fod y cymhwyster mwyaf cyffredin.

**4.4** Bu gostyngiad bach yn nifer y rheolwyr sy'n gymwysedig fel gweithiwr cymdeithasol o 19 i 18, mae gan dri ohonynt radd mewn gwaith cymdeithasol, mae gan chwech ohonynt Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol (DipSW) ac mae un wedi cymhwyso y tu allan i'r DU. Roedd gan y lleill gymwysterau cynharach mewn gwaith cymdeithasol. Roedd cymhwyster rheoli hefyd gan y mwyafrif a oedd â chymhwyster gwaith cymdeithasol. Daeth hyn yn ofynnol ar gyfer gweithio fel rheolwr cartrefi gofal i oedolion yn 2013 yn dilyn diwygio'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru<sup>2</sup>.

<sup>2</sup> Y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru [www.cgcywmu.org.uk/fframwaith-cymwysterau](http://www.cgcywmu.org.uk/fframwaith-cymwysterau)

**4.5** At ddibenion cofrestru, mae angen i ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r gofyniad lleiaf neu uwch yn unig. Felly, nid yw Ffigwr 2 yn adlewyrchu unrhyw gymwysterau ychwanegol y gallai fod gan reolwyr y tu hwnt i'r gofyniad hwn. Roedd gan reolwyr a roddodd wybod i'r Cyngor Gofal fod ganddynt gymhwyster nyrso ar lefel gyntaf cofrestru y cymhwyster / cymwysterau gofal cymdeithasol gofynnol, felly ni chynhwyswyd y cymhwyster nyrso yn y ffigwr hwn.

Ffigwr 3: Y flwyddyn y cymhwysodd rheolwyr cartrefi gofal i oedolion yn y proffil hwn ar gyfer y swydd




- 4.6** Ers y proffil diwethaf, roedd 61 o reolwyr wedi cymhwyso, 59 gyda'r cymhwyster gofynnol presennol a dau gyda chymhwyster rhagflaenol.
- 4.7** Roedd dros hanner y rheolwyr (57.5 y cant) wedi cymhwyso mwy na phum mlynedd yn ôl. Roedd rheolwyr wedi bod yn gymwysedig ers 6.2 mlynedd ar gyfartaledd.
- 4.8** Oedran cyfartalog y rhai a gymhwysodd fel rheolwr cartrefi gofal i oedolion oedd 43 oed.
- 4.9** Roedd tri chwarter y rheolwyr a oedd yn gofrestredig ym mis Mehefin 2014 (75.3 y cant) wedi ennill y cymhwyster roedd ei angen i gofrestru cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ym mis Tachwedd 2010 y byddai cofrestru'n orfodol. Fodd bynnag, roedd 24.7 y cant (310) o'r rheolwyr wedi cymhwyso ers i gofrestru gorfodol gael ei gyhoeddi gan gynnwys 198 o reolwyr a oedd wedi cymhwyso ers i gofrestru gorfodol ddod i rym ar 1 Hydref 2011. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu trosiant ymhlith staff ond hefyd mae'n dangos bod rheoleiddio wedi cynyddu nifer y rheolwyr cymwysedig.

## 5 Sir cyflogaeth

**5.1** Mae Ffigwr 4 yn dangos dosbarthiad daearyddol ledled Cymru, yn ôl ardal awdurdod lleol, y rheolwyr cofrestredig mewn cyflogaeth gofal cymdeithasol ar 1 Mehefin 2014.

Ffigwr 4: Nifer y rheolwyr ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014 a gyflogir ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru




**5.2** Yr ardaloedd awdurdod lleol lle cyflogwyd y rhan fwyaf o reolwyr cartrefi gofal i oedolion oedd Abertawe (108), Caerdydd (102) a Sir Gaerfyrddin (102). Cyflogwyd y nifer lleiaf ym Mlaenau Gwent (21) a Merthyr Tudful (23). Nid yw hyn yn adlewyrchu nifer y gwasanaethau a gofrestrwyd yn yr ardaloedd hyn oherwydd bod rhai rheolwyr yn rheoli mwy nag un gwasanaeth.



## 6 Math o gyflogaeth

- 6.1** O'r 1,255 o reolwyr cofrestredig, roedd 82.5 y cant (1,036) wedi'u cyflogi mewn gwasanaeth cartref gofal i oedolion yng Nghymru a 14.7 y cant (185) yn hunangyflogedig.
- 6.2** Roedd 29 a oedd naill ai ddim mewn cyflogaeth neu roedd eu cyflogaeth yn anhysbys ar 1 Mehefin 2014. Yn ogystal, roedd tri wedi'u cyflogi yng Nghymru gan asiantaeth a dau wedi'u cyflogi y tu allan i Gymru mewn rôl gofal cymdeithasol.
- 6.3** O'r rheolwyr cartrefi gofal i oedolion cofrestredig, roedd gan 50 ohonynt fwy nag un swydd. Yn y rhan fwyaf o achosion roeddent yn berchen ar ac yn rheoli mwy nag un lleoliad cofrestredig, neu roeddent yn rheoli mwy nag un o'r lleoliadau cofrestredig a ddarperir gan eu sefydliad. Yn ogystal, roedd 20 o reolwyr a oedd yn gweithio mewn gwasanaeth cartref gofal i oedolion yn ogystal â gwasanaeth gofal cartref. Ar gyfer y dadansoddiad hwn o gyflogaeth, cyfrifir yr unigolion cofrestredig yn hytrach na'r rolau sydd ganddynt.

Ffigwr 5 – Y math o swydd a oedd gan reolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014




Tabl 1: Math o swydd rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014 o gymharu â mis Mehefin 2013

Math o swydd	2013	2014	Gwahaniaeth
Rheolwr	939 (cyfunol)	911	+ 33
Rheolwr / Perchennog		61	- 7
Metron neu Nyrs-reolwr	53	46	+ 3
Rheolwr gweithredol / Dros dro / Wrth gefn	41	44	+ 16
Cynorthwydd / Dirprwy	91	107	- 9
Rôl arall ar lefel rheolwr	36	27	+ 9
Perchennog (heb fod yn rheolwr)	10	11	+ 5
Islaw lefel rheolwr	6	11	+ 50
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,176</b>	<b>1,226</b>	

- 6.4** Rôl rheolwr a welodd y cynnydd mwyaf. Roedd nifer y metronau neu nyrs-reolwyr wedi gostwng, o 53 yn 2013 i 46 yn 2014, a bu gostyngiad hefyd yn y nifer a oedd yn gweithio mewn rolau eraill ar lefel rheolwr.
- 6.5** Oedran cyfartalog y rhai yn y pedwar math cyntaf o swyddi yn Nhabl 1 (heb gynnwys rolau islaw rheolwr megis dirprwy) oedd 49 ac roedd 12.7 y cant dros 60 oed.
- 6.6** Roedd 317 (25.3 y cant) o reolwyr wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn ogystal â'r Cyngor Gofal. O'r 46 a oedd wedi'u cyflogi fel Metron/Nyrs-reolwr, roedd 45 hefyd wedi'u cofrestru gyda'r CNB ar ddyddiad y proffil.

Ffigwr 6: Canran y rheolwyr yn gweithio mewn cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru fesul sector neu fesul asiantaeth ym mis Mehefin 2014



Tabl 2: Nifer y rheolwyr a gyflogwyd mewn cartrefi gofal i oedolion yng Nghymru ym mis Mehefin 2014 fesul sector neu fesul asiantaeth o gymharu â mis Mehefin 2013

Sector neu asiantaeth	2013	2014	Gwahaniaeth
Preifat	936	985	+ 49
Gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol	142	147	+ 5
Trydydd sector	85	83	- 2
Asiantaeth recriwtio / Asiantaeth gyflogi	0	3	+ 3
Addysg bellach / addysg uwch	0	1	+ 1
Iechyd (cartref gofal i oedolion a reolir gan fwrdd iechyd)	1	2	+1
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,164</b>	<b>1,221</b>	<b>+ 57</b>

- 6.7** Roedd canran y rheolwyr a gyflogwyd mewn cartrefi gofal i oedolion ym mis Mehefin 2014 ym mhob sector yn dangos ychydig iawn o newid ers mis Mehefin 2013. Roedd y mwyafrif (81 y cant) yn gweithio mewn cartref gofal i oedolion yn y sector preifat (80.4 y cant yn 2013). Mae'r pum rheolwr sydd wedi'u cofrestru ond heb eu cyflogi mewn cartref gofal i oedolion ym mis Mehefin 2014 wedi'u hepgor o Ffigwr 6 a Thabl 2.
- 6.8** O'r 989 o reolwyr a oedd yn gweithio yn y sector preifat, roedd 185 yn hunangyflogedig (158 yn 2013). O'r rhai a oedd yn hunangyflogedig, roedd 64.6 y cant wedi bod yn eu swydd bresennol ers dros 10 mlynedd ac roedd 30.9 y cant dros 60 oed.
- 6.9** Roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflogi 12 y cant o'r rheolwyr mewn cyflogaeth bresennol mewn gofal cymdeithasol ar 1 Mehefin 2014.

Tabl 3: Nifer y gwasanaethau awdurdod lleol gyda rheolwr cofrestredig a nifer y rheolwyr a gofrestrwyd

Awdurdodau lleol a chynghorau bwrdeisdref, sirol a threfi	Nifer y gwasanaethau gyda rheolwr cofrestredig – mis Mehefin 2014	Nifer y rheolwr cofrestredig – mis Mehefin 2014
Blaenau Gwent	1	3
Pen-y-bont ar Ogwr	6	6
Caerffili	9	10
Caerdydd	0	0
Sir Gâr	11	12
Sir Ceredigion	6	8
Abertawe	11	20
Conwy	1	1
Gwynedd	14	22
Ynys Môn	6	7
Dinbych	3	5
Y Fflint	6	7
Merthyr Tudful	5	5
Sir Fynwy	3	3
Castell-nedd Port Talbot	2	3
Casnewydd	4	5
Sir Penfro	5	6
Sir Powys	0	0
Rhondda Cynon Taf	13	16
Torfaen	0	0
Bro Morgannwg	3	5
Wrecsam	4*	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>109</b>	<b>149</b>

\* yn cynnwys un tŷ gwarchod nad yw wedi'i gofrestru fel cartref gofal i oedolion ond lle'r oedd rheolwr cartref gofal i oedolion cymwysedig yn gweithio


- 6.10** Fel yn y blynyddoedd blaenorol, y darparwr awdurdod lleol mwyaf oedd Gwynedd gyda 14 o gartrefi gofal i oedolion cofrestredig a 22 o reolwyr cartrefi gofal cymwysedig ar y Gofrestr.
- 6.11** Disgrifiodd y rhan fwyaf o reolwyr y grŵp o bobl y maent yn gweithio gyda nhw fel pobl hŷn gan gynnwys categorïau iechyd meddwl, anabledd corfforol ac anabledd dysgu (60.9%). Roedd nifer fach o reolwyr yn gweithio gydag oedolion a phobl hŷn (1.9%). Roedd gweddill y rheolwyr yn gweithio gydag oedolion, ond nid pobl hŷn (37.2%). Mae Tabl 4 yn cynnwys categori ar gyfer pob swydd bresennol cartrefi gofal i oedolion ar gyfer pob rheolwr.

Tabl 4: Grwpiau yr oedd rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014 yn gweithio â nhw

Grwpiau	Total	Percentage
<b>Categori sengl:</b>		
Pobl hŷn	779	60.9%
Anabledd dysgu	238	18.6%
Iechyd meddwl	117	9.1%
Anabledd corfforol	14	1.1%
Camddefnyddio sylweddau	4	0.3%
<b>Categorïau lluosog:</b>		
Oedolion yn cynnwys mwy nag un o'r categorïau uchod ond heb gynnwys pobl hŷn	104	8.1%
Oedolion yn cynnwys mwy nag un o'r categorïau uchod ac yn cynnwys pobl hŷn	24	1.9%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,280</b>	<b>100%</b>

## 7 Hyd amser mewn swydd

Ffigwr 7: Nifer y blynyddoedd roedd rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2013 wedi bod yn eu swydd bresennol



**7.1** Lle'r oedd gan unigolyn fwy nag un swydd yn y sector cartrefi gofal i oedolion, dim ond un swydd lle maent yn dal swydd rheolwr sydd wedi'i dadansoddi. Bydd y data a gedwir ar ddyddiad dechrau yn y swydd bresennol yn llai cyfamserol eleni nag yn union ar ôl cofrestru neu ar ôl adnewyddu, pan fydd rheolwyr yn fwyaf tebygol o roi gwybodaeth gyfamserol ynghylch cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos cynnydd bach ers 2013, sy'n awgrymu bod o leiaf 10 y cant o reolwyr ar y Gofrestr wedi dechrau mewn swydd newydd ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n bosibl bod dros hanner (51.9 y cant) o'r rheolwyr ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014 wedi bod yn yr un swydd ers dros bum mlynedd.

## 8 Rheolwyr yn ymuno â'r Gofrestr a'i gadael fel rheolwyr cartrefi gofal i oedolion

**8.1** O'r rheolwyr ar y Gofrestr ym mis Mehefin 2014, roedd 176 (14 y cant) wedi cofrestru fel rheolwr cartref gofal i oedolion ers y proffil diwethaf ym mis Mehefin 2013, ac roedd 122 o bobl wedi gadael y rôl hon ar y Gofrestr. Bu cynnydd net o 54.

### Proffil o'r rhai a adawodd y Gofrestr fel rheolwr cartref gofal i oedolion

**8.2** Symudodd cofrestriad rhai rheolwyr i rôl arall, felly, er eu bod yn parhau ar y Gofrestr ar gyfer eu rôl newydd, ni chawsant eu cyfrif yn y proffil hwn. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif a adawodd cofrestriad fel rheolwyr cartrefi gofal i oedolion wedi gadael y Gofrestr yn llwyr. Cafodd un rheolwr ei ddileu gan bwyllgor ymddygiad rhwng mis Mehefin 2013 a mis Mai 2014. Ar hyn o bryd mae gorchymyn atal dros dro interim wedi'i osod ar ddau reolwr gan bwyllgor ymchwilio ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y proffil hwn.

Tabl 5: Rhesymau a roddwyd dros adael y Gofrestr fel rheolwr cartrefi gofal i oedolion

Rheswm dros adael	
Dileu gwirfoddol	70
Dilëwyd – Methwyd â thalu ffi flynyddol	15
Trosglwyddo i swydd rheolwr gofal cartref	15
Dilëwyd – Methwyd â gwneud cais i adnewyddu cofrestriad	11
Wedi marw	3
Dilëwyd – Derbyniwyd cais anghyflawn i adnewyddu	3
Gorchymyn atal dros dro interim	2
Dilëwyd gan bwyllgor ymddygiad	1
Trosglwyddo i swydd gweithiwr cartref gofal i oedolion	1
Trosglwyddo i swydd gweithiwr gofal cartref	1
Cyfanswm	
	122

Tabl 6: Rhesymau a roddwyd gan unigolion cofrestredig dros ofyn am ddileu gwirfoddol

Rheswm dros ddileu gwirfoddol	
Wedi ymddeol	19
Nid yw cofrestru'n ofynnol ar gyfer swydd bresennol	18
Ddim yn gweithio bellach mewn gofal cymdeithasol	14
Arall	7
Cymryd seibiant o weithio mewn gofal cymdeithasol	4
Gweithio mewn gofal cymdeithasol y tu allan i Gymru	4
Yn ddi-waith ar hyn o bryd	3
Yn byw y tu allan i'r DU	1
Cyfanswm	
	70

- 8.3** Y rheswm a roddwyd gan y rhan fwyaf o bobl dros adael y Gofrestr oedd newid rôl yn hytrach nag ymddeol. Mae'r rhai a gafodd eu dileu o'r Gofrestr am beidio â thalu ffioedd heb roi rheswm felly mae'n bosibl bod pobl a oedd wedi ymddeol yn eu plith.

Tabl 7: Oedran a rhyw y rhai a adawodd y Proffil ers mis Mehefin 2013

Grŵp oedran	Menywod	Dynion	Cyfanswm
O dan 25	0	0	0
25 - 30	3	0	3
31 - 35	5	1	6
36 - 40	3	4	7
41 - 45	7	4	11
46 - 50	18	3	21
51 - 55	28	5	33
56 - 60	16	4	20
61 - 65	15	1	16
Dros 65	4	1	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>99</b>	<b>23</b>	<b>122</b>

- 8.4** Mae ystod oedran eang y rhai a adawodd y Gofrestr fel rheolwyr cartrefi gofal i oedolion hefyd yn awgrymu nad ymddeol oedd y prif reswm. O'r rhai a adawodd, roedd 19 y cant yn ddyinion.

### Proffil o'r rhai a ymunodd â'r Gofrestr fel rheolwr cartref gofal i oedolion

Tabl 8: Y rhesymau pam yr ymunodd rheolwyr â'r Gofrestr fel rheolwr cartref gofal i oedolion ers mis Mehefin 2013

Rheswm dros gofrestru	
Wedi cymhwyso ar ôl 1 Mehefin 2013	53
Dyddiad cychwyn swydd cyn 1 Mehefin 2013, wedi cofrestru am y tro cyntaf fel rheolwr cartref gofal i oedolion ar ôl mis Mehefin 2013 (cofrestru hwyr)	53
Dyddiad cychwyn swydd fel rheolwr cartref gofal i oedolion ar ôl 1 Mehefin 2013	49
Wedi cofrestru eisoes – wedi newid o swydd rheolwr gofal cartref	12
Wedi cofrestru eisoes – wedi newid o swydd gweithiwr cartref gofal i oedolion	5
Wedi cofrestru eisoes – wedi newid o swydd gweithiwr cymdeithasol cymwysedig	3
Wedi cofrestru eisoes – wedi newid o swydd rheolwr gofal preswyl i blant	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>176</b>

- 8.5** O'r 176 a ymunodd â'r Gofrestr fel rheolwr cartref gofal i oedolion yn ystod y cyfnod 2013 i 2014, roedd 30 y cant eisoes wedi cymhwyso ac yn gweithio yn eu rôl cyn 1 Mehefin 2013, felly roeddent wedi cofrestru'n hwyr.
- 8.6** Mae ystod oedran yr holl rai sydd newydd gofrestru yn eang iawn ac roedd y cynnydd mwyaf ymhlith menywod rhwng 41 a 50 oed.
- 8.7** O'r rhai a oedd newydd gofrestru fel rheolwr cartref gofal i oedolion, roedd 45 yn ddynion (25.6 y cant) a 131 yn fenywod.
- 8.8** Roedd 69 o reolwyr wedi symud i swydd newydd mewn rheoli cartref gofal i oedolion a chofrestru yn y flwyddyn ddiwethaf (5.5 y cant o gyfanswm y rheolwyr ar y Gofrestr).

Tabl 9: Oedran a rhyw y rheolwyr cartrefi gofal i oedolion newydd i'r Proffil a ddechreuodd yn eu swydd ers 1 Mehefin 2013

Grŵp oedran	Menywod	Dynion	Cyfanswm
O dan 25	1	0	1
25 - 30	2	1	3
31 - 35	4	1	5
36 - 40	2	5	7
41 - 45	14	3	17
46 - 50	14	0	14
51 - 55	5	2	7
56 - 60	10	3	13
Dros 65	2	0	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>54</b>	<b>15</b>	<b>69</b>



## 9

## Amrywiaeth

- 9.1** Caiff data cyfle cyfartal ei gasglu er mwyn monitro bod y broses gofrestru'n deg. Mae rhoi'r data monitro hwn yn rhan wirfoddol o'r broses o wneud cais. Er bod nifer y rheolwyr cartrefi gofal i oedolion sydd wedi cofrestru wedi cynyddu 54 ers 2013, a bu ychydig o gynnydd yng nghanran yr ymgeiswyr sy'n rhoi'r wybodaeth hon, mae'r data cyfle cyfartal a gasglwyd yn dangos ychydig iawn o newid yn y proffil.
- 9.2** Rhoddodd 77 y cant o reolwyr wybodaeth am anabledd (73 y cant yn 2013). O'r rhai a ymatebodd, roedd 99 y cant heb ddatgan anabledd.
- 9.3** Rhoddodd 75 y cant o reolwyr wybodaeth am eu hethnigrwydd. O'r rhai a ymatebodd, roedd 92 y cant (92.4 y cant yn 2013) yn disgrifio eu hunain fel gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig. Roedd yr unigolion eraill a roddodd y wybodaeth hon yn disgrifio eu hunain fel Indiaidd, Du Prydeinig Affricanaidd, Du Prydeinig Caribiaidd, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Pacistanaidd neu gefndir ethnig cymysg arall.
- 9.4** Rhoddodd 77 y cant o reolwyr wybodaeth am eu gallu yn y Gymraeg. O'r rhai a ymatebodd, disgrifiodd 10.2 y cant (10.5 y cant yn 2013) eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl, ac nid oedd 67.2 y cant (68.6 y cant yn 2013) yn siarad unrhyw Gymraeg o gwbl.

## 10 Crynodeb

- 10.1** Cafwyd cynnydd net o 54 o reolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn o fis Mehefin 2013 i fis Mai 2014. Roedd hyn yn cynnwys 53 a oedd wedi ennill cymhwyster a oedd yn eu galluogi i gofrestru yn ogystal â 53 a gofrestrodd yn hwyr.
- 10.2** Yr hyd amser cyfartalog mewn swydd bresennol gan ddefnyddio'r data a roddwyd gan yr unigolion cofrestredig oedd wyth mlynedd.
- 10.3** Roedd 10.2 y cant wedi gadael rôl rheolwr cartref gofal i oedolion yn ystod y flwyddyn 2013 i 2014. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ddaeth â'u cofrestriad i ben yn y rôl hon ers y proffil diwethaf wedi newid eu swydd yn hytrach nag ymddeol.
- 10.4** Nid oedd y rhai a ymunodd ac a adawodd y Gofrestr fel rheolwyr cartrefi gofal i oedolion wedi newid y proffil yn sylweddol o fenywod yn bennaf (81.3 y cant), cyflogedig neu hunangyflogedig fel rheolwr cartref yn y sector preifat (81 y cant) ac wedi cymhwyso dros bum mlynedd yn ôl (57.5 y cant); roedd canran uchel (46.9 y cant) dros 50 mlwydd oed. Mae'r data'n dangos cynnydd bach yn nifer y dynion ers y proffil diwethaf.
- 10.5** Mae nifer y dirprwyon a chynorthwyyr yn parhau yn isel sy'n awgrymu nad yw'r sector wedi ymgysylltu'n llawn hyd yn hyn â chynllunio olyniaeth ar gyfer sector lle mae 12.3 y cant o'r rhai sydd wedi'u cofrestru fel rheolwyr dros 60 oed.
- 10.6** Oedran cyfartalog yr holl rai sydd yn y proffil oedd 49 oed. Roedd rheolwyr iau o dan 30 mlwydd oed yn parhau yn lleiafrif i raddau helaeth. Roedd y 69 a ddechreuodd mewn swydd newydd ac a ymunodd â'r Gofrestr yn ystod y flwyddyn ym mhob grŵp oedran o 25 i dros 65, ond dim ond pedwar oedd yn rheolwyr ifainc o dan 30.
- 10.7** Mae cofrestru wedi cynyddu nifer y rheolwyr sydd ag o leiaf y cymhwyster gofynnol. O'r rheolwyr sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd, roedd 24.7 y cant wedi cymhwyso yn y cyfnod ers i gofrestru gorfodol gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2010. Fodd bynnag, gyda throsiant o 10 y cant y flwyddyn, ni fyddai hyn yn ddigon o reolwyr sy'n cymhwyso i gynnal y sector oni bai bod pwll o unigolion cymwysedig sydd heb gofrestru sy'n gallu camu i mewn i swyddi gwag.
- 10.8** Yn 82 y cant o'r gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion cofrestredig yng Nghymru, roedd o leiaf un rheolwr cymwys wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Gofal. Roedd 40 o wasanaethau cofrestredig heb unrhyw reolwr cymwysedig wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Gofal neu gyda'r AGGCC. Mewn 51 o wasanaethau cofrestredig pellach, nid oedd y rheolwr penodol a oedd wedi'i gofrestru gydag AGGCC nac unrhyw unigolyn arall wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Gofal yng nghyfeiriadau'r gwasanaethau hynny. Mae'r Cyngor Gofal yn rhannu gwybodaeth gydag AGGCC er mwyn galluogi AGGCC i nodi'r rhesymau.
- 10.9** Nid yw'r cynnydd mewn unigolion cofrestredig yn y rôl hon wedi newid yn sylweddol y data ar allu yn y Gymraeg neu ethnigrwydd.
- 10.10** Mae'r Cyngor Gofal wedi bod yn gweithio gyda rheolwyr, cyflogwyr a chyrff cynrychioliadol gofal cymdeithasol i ddatblygu Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol. Mae ymgynghoriad ar y drafftiau o'r gwaith hwn wedi arwain at waith ymchwil a dadansoddi pellach i lywio dealltwriaeth y Cyngor Gofal ar yr angen am reolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol a sut y gellir bodloni hyn.

- 10.11** Mae'r gwaith hwn hefyd wedi annog datblygu cynnig i helpu creu cronfa fwy o faint o ddarpar reolwyr gofal cymdeithasol trwy gwrs paratoi ar gyfer rheoli. Byddai hyn yn darparu hyfforddiant naill ai ar arwain a rheoli mewn gofal cymdeithasol neu arwain ymarfer gofal cymdeithasol, yn dibynnu ar brofiad blaenorol cyfranogwyr.
- 10.12** Mae trafodaethau pellach yn cael eu cynnal er mwyn cytuno ar y modelau gorau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant o'r fath a ffynonellau posibl o gyllid.